TGAU

3010NA0-1

DYDD GWENER, 13 IONAWR 2023 – BORE

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

HAEN UWCH

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CJ*(W23-3010NA0-1-MLP-A4-18)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

(Trowch y dudalen)

**UNED 1: BARDDONIAETH**

**HAEN UWCH**

**1. Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**

**Yn y cerddi mae'r ddau fardd yn ymateb i ryfeloedd y gorffennol.**

**CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a / neu'n WAHANOL. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:**

- **cynnwys a neges / themâu y cerddi**
- **sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)**
- **eich ymateb personol i'r cerddi**

**Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**Y COED**

**Chwe miliwn o goed yng Nghaersalem, fe'u plannwyd hwy**
**Yn goeden am bob corff a losgwyd yn y ffyrnau nwy.**

**Coed sydd yn estyn eu gwreiddiau i ganol lludw pob ffwrn,**
**Y lludw sydd wedi mynd ar goll, heb fynwent na bedd nac wrn.**

**Chwithig oedd gweled y cangau fel cofgolofnau byw,**
**Ac nid marmor na gwenithfaen, na hyd yn oed yr angladdol yw.**

**Ni chlywem ni na chlychau'r eglwys na mŵesin y mosg,**
**Ond clywed rhwng eu cangau hwy y marwnadau llosg.**

**Nid yw'r dwylo a'u plannodd yn ddieuog, na'u cydwybod yn lân,**
**Canys diddymodd yr Israeliaid bentrefi'r Arabiaid â'u tân.**

**Pam na ddylai'r Arabiaid, hwythau, godi yn Cairo ac Amân**
**Fforestydd o goed i gofio?**

**Ond ni allwn ni gondemnio'r Natsïaid na'r Iddewon ychwaith**
**Canys fe droesom o'r awyr Dresden yn un uffern faith;**

**A gollwng y ddau fom niwclear ar y ddwy dre yn Japan.**

**(Trowch y dudalen)**

**O'r holl ganrifoedd a gerddodd ar y ddaear er cychwyn y byd,**
**Yr ugeinfed yw'r fwyaf barbaraidd ohonynt hwy i gyd.**

**A bydd y nesaf yn waeth am fod y bomiau a'r rhocedi yn fwy,**
**A dyfeisir mewn labordai dirgel sawl math o nwy.**

**A phan ddaw'r trydydd Rhyfel i gadw ei ddychrynllyd oed,**
**Ni ellir rhifo'r lladdedigion llosg, na rhifo ychwaith y coed.**

**Chwe miliwn o goed yng Nghaersalem, chwe miliwn, a thair croes,**
**Ac ar y ganol Yr Unig Un a fu'n byw'r Efengyl yn ei oes.**

**Daw'r tymhorau i newid eu lliwiau, gwyrdd, melyn a gwyn.**
**Ond coedwig y marwolaethau'n aros a fyddant hwy, er hyn.**

**Pan fyddant ymhen blynyddoedd wedi tyfu i'w llawn maint,**
**Fe wêl y genhedlaeth honno nad oeddem ni yn llawer o saint.**

**Gwenallt**

**(Trowch y dudalen)**

**NIWL**

**Yr ardal honno,**
**Gogledd-ddwyrain Ffrainc,**
**Y ddau dro,**
**Y ddau dro y bum i drwyddi**
**DANGER oedd hi**
***BROUILLARD:**
**Niwl.**

**Troes tegwch y bore**
**Y ddau dro,**
**Troes tywyniadau melyn yr haul**
**Y ddau dro**
**Yn niwl y prynhawn.**

**Niwl llwyd,**
**Niwl oedd yn mygu golau melyn y car**
**Fel yr oedd o'n mygu'r heulwen:**
**Lampau'n diffodd.**

**(Trowch y dudalen)**

Ac o’r niwl hwnnw deuai weithiau
Enwau ac arnynt *archollion
Hen ryfel:
*Compiègne, Sommes,
Mons, Arras, Amiens.
A deuai atom hen farwolaethau
O arwyddion ochrau ffyrdd:
‘Yma y mae beddau…’
A nodid rhifau ac enwau *catrodau.
Beddau yn y niwl.

Niwl hen y daith,
Niwl hen,
Hen, hen niwl y ddynoliaeth.

Gwyn Thomas

GEIRFA

BROUILLARD – y gair Ffrangeg am niwl
archollion – briwiau / anafiadau
Compiègne, Sommes, Mons, Arras, Amiens –
brwydrau’r Rhyfel Byd Cyntaf
catrodau – unedau o filwyr yn y rhyfel

DIWEDD Y PAPUR